



I gael rhagor o wybodaeth:
Ffôn: 03455 76 01 01
Gwe: www.southwales.ac.uk

Dylunio: Argraffu a Dylunio Prifysgol De Cymru 01443 482 677

Strategaeth Ymchwil

Sefydlwyd ein prifysgol ym meysydd glo'r de, yr allforiwyd cyfoeth eu mwynau o Gaerdydd i bedwar ban byd. Rydym ni'r un mor falch o'n hetifeddiaeth ag yr ydym ni o'r diddordebau ymchwil cymwysedig a'r gweithgareddau ysgolheigaidd sydd erbyn heddiw'n rhychwantu amrywiaeth cyfoethog o feysydd diwydiannol, masnachol a diwylliannol.

Ar draws y rhain rydym ni'n parhau i ymrwymo i ethos o ymholi cydweithredol, a dod ag effaith ein dealltwriaeth a'n harloesi yn sgil ymchwil i fywydau'r cymunedau a'r busnesau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol rydym ni'n eu gwasanaethu. Mae'r cysylltiadau diwydiannol sy'n siapia ein diwylliant ymchwil yn ei wneud yn wirioneddol ryngwladol, amlieithog ac eang ei olwg. Mae ein diben cyhoeddus yn golygu ein bod yn ymrwymo i feithrin ffrwd o dalent ymchwil a chreu amgylchedd ymchwil sy'n galluogi ein myfyrwyr a'n staff i gyd i ffynnu.

Gwaith caled a thalent ein staff academiaidd, myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a staff cymorth ymroddedig sydd i gyfrif am lwyddiannau ein hymchwil. Mae'r strategaeth hon yn egluro ymrwymiad y brifysgol i ehangu'r sail ymchwil a chynyddu rhagoriaeth gyda chymorth a buddsoddi wedi'u targedu. Nid strategaeth i'n staff academiaidd a'n myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn unig yw hon: mae'n canolbwyntio ar gynhwysiad, ac yn amlygu pwysigrwydd ymchwil i fyfyrwyr israddedig ar gyfer datblygu eu sgiliau eu hunain fel ymchwilwyr annibynnol ochr yn ochr â'r disgygliad bod eu rhaglenni wedi'u gwreiddio mewn addysgu'n seiliedig ar ymchwil.


Rydym ni'n deall pwysigrwydd ysgolheictod ac ymchwil cymwysedig sy'n effeithio ar ein myfyrwyr, busnesau, elusennau, cymunedau a llywodraethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Rydym ni'n ystyried ymchwil ac arloesi'n rhan hanfodol o'n cenhadaeth i helpu ein rhanbarth yma yn ne Cymru i chwarae rhan gynyddol bwysig yn yr economi fyd-eang. Bydd ein hymrwymiad i greu gwybodaeth a'i throsglwyddo yn ein helpu i recriwtio, datblygu a chadw'r staff gorau er mwyn cynhyrchu'r gymuned ysgolheigaidd ddi-dor honno sy'n cwmpasu ein holl fyfyrwyr a'n holl staff: rydym ni i gyd yn ddysgwyr gyda'n gilydd. Mae ysgolheictod, ymchwil, ei drosglwyddo a'i effaith ddilysol yn ein galluogi i roi ein myfyrwyr yn gyntaf.


Ym Mhrifysgol De Cymru rydym ni'n deall bod tirweddau addysg ac ymchwil yn mynd yn fwyfwy cystadleuol ac felly ein nod yw defnyddio ein holl adnoddau gyda'i gilydd i gyflawni ein cenhadaeth. Credwn fod ein myfyrwyr yn elwa o gael bod yn rhan o ymchwil a phrosiectau ysgolheigaidd byw a bod cyfuniad o addysg, ysgolheictod ac ymchwil yn addas i'n timau academiaidd ar draws ein sbectrwm eang o ddisgyblaethau a phroffesiynau.

Mae ein hymrwymiad i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr yn bwysig ac felly rydym ni'n bwriadu adeiladu Coleg Hyfforddi Doethurol i gyfoethogi profiad ein myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a dwysau sgiliau ein cymuned o oruchwylwyr. Rydym ni'n ymrwymo i ddatblygu a chefnogi ein talent ymchwil. Byddwn yn sicrhau bod gan ymchwilwyr gyrfa gynnar amser ac adnoddau i ymgymryd â'u hymchwil a bod llwybrau gyrfa clir ar gyfer dyrchafiad yn unol â'r Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa i Ymchwilwyr. Byddwn yn sicrhau bod cyfleoedd ar gael ar gyfer hyfforddi a datblygu effeithiol a'u bod yn cael eu teilwra i anghenion ymchwilwyr, pa gam bynnag o'u gyrfa y bônt arno.

Byddwn yn canolbwyntio ein hadnoddau mewn meysydd a nodir fel blaenoriaethau strategol i ddatblygu Canolfannau Ymchwil ac Arloesi o safon fyd-eang. Rydym yn credu mewn twf organig a meritocraziaeth a byddwn yn buddsoddi mewn meysydd twf arbenigol a rhyngddisgyblaethol a all arwain at lwybrau cynaliadwy i gyrraedd ein dyheadau o safon fyd-eang.

Bwriedir i'r strategaeth ymchwil hon fod yn gryno, yn gynhwysol, yn gefnogol ac yn anogol gyda disgwyliadau uchel ar unigolion a thimau. Byddwn yn y chwarter uchaf yng Nghyngair y Prifysgolion (a ddiffinnir gan aelodaeth 2014) erbyn 2017 drwy gyflawni nifer hydrin o weithredoedd penodol, mesuradwy a chyflawnadwy fel y manylir yn y strategaeth hon.






Blaenoriaethu Pobl

Amcan	Byddwn yn cyflawni hyn drwy	Gwaelodlin 2018	Mesur Llwyddiant 2021	Mesur Llwyddiant 2027	Arweinydd
Darparu diwylliant perfformiad uchel i ddenu, cadw a datblygu staff a myfyrwyr gweithredol o ran ymchwil yn ymwneud â busnes, diwydiant a masnach a gweithio ar heriau cymdeithasol.	1. Arweinyddiaeth â disgwyliadau uchel gan Dîm Gweithredol y Brifysgol, Deoniaid, Penaethiaid Ymchwil a Phenaeithiaid Canolfannau Ymchwil neu Arloesi; nodau strategol ar lefel y Brifysgol a gaiff eu monitro gan ddangosyddion perfformiad allweddol a berchnogir gan gyfadranau, ysgolion, canolfannau ymchwil ac arloesi; yr holl fuddsoddiadau strategol gan gynnwys QR i fod ag enillion clir a ddynodir gydag amserlenni	Cyfadranau ac ysgolion wedi'u gwahanu o ganlyniadau ymchwil; dim disgwyl enillion diffiniadwy gan QR;	Ymchwil yn rhan hanfodol o'r cylch cynllunio academaidd blynyddol; yr holl fuddsoddiadau wedi'u clymu i enillion diffiniadwy; metrigau ymchwil (allbynnau, cyfeirnodau, incwm) 50% yn uwch na gwaelodlin 2018	Metrigau ymchwil 100% yn uwch na gwaelodlin 2018	Deoniaid
Ymsefydlu a chymorth unigol	2. Ymchwil i fod yn rhan hanfodol o recriwtio, ymsefydlu a datblygiad gyrfar holl staff academaidd. Bydd pob aelod newydd o staff academaidd yn cael mentor profiadol sy'n weithredol o ran ymchwil ac sy'n gysylltiedig â chanolfan neu grŵp ymchwil; bydd yr holl staff academaidd yn cael gofyn am fentor; bydd cymorth mewnol gan gymheiriaid ar gael yn eang ar gyfer ysgrifennu allbynnau ymchwil	Gwaelodlin o 25 pâr mentor-mentai; 164 aelod o staff gweithredol o ran ymchwil (cyhoeddi allbwn a gylchredir yn rhyngwladol ac a adolygwyd gan gymheiriaid o fewn y 2 flynedd ddiwethaf a'i lwytho ar Pure)	50 pâr mentor-mentai; 250 aelod o staff gweithredol o ran ymchwil	75 pâr mentor-mentai; 350 aelod o staff gweithredol o ran ymchwil	Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil
Datblygiad proffesiynol parhaus	3. Rhaglen DPP parhaus, tempo uchel, yn canolbwyntio ar ymchwil gyda digwyddiadau misol i arweinwyr, rheolwyr ac academyddion yn rhychwantu ymchwil a chyfnewid gwybodaeth a ategir gan gymorth wedi'i dargedu; hyfforddiant DPR i reolwyr i gynnwys adolygu gweithgaredd ymchwil a llwybrau gyrfar	20 o weithdai i 171 mynychwr gwahanol yn sesiwn 16/17; cwblhau amserol o 24% yn sesiwn 16/17;	300 mynychwr gwahanol i bob sesiwn	400 mynychwr gwahanol i bob sesiwn	Cyfarwyddwr Ymchwil ac Ymgysylltu Busnes
Myfyrwyr PhD yn rhan hanfodol o'n timau ymchwil	4. Creu Coleg Hyfforddi Doethurol fel ffocws datblygiad ymchwilwyr a chymorth cymheiriaid. Yr holl ysgoloriaethau doethurol a gyllidir gan y brifysgol i gael llwybr clir at effaith; annog cystadleuaeth amserol; y llwybr a ffeirir ar gyfer staff fydd PhD drwy bortffolio neu gyhoeddi	Cyfanswm o 406 o fyfyrwyr PhD, 84 gyda phartner allanol; 222 aelod o staff yn ymwneud â goruchwyllo PhD	Cwblhau amserol o 50% yn sesiwn 20/21; 120 o fyfyrwyr PhD gyda phartner allanol; 330 aelod o staff yn ymwneud â goruchwyllo PhD	Cwblhau amserol o 75% yn sesiwn 26/27; 160 o fyfyrwyr PhD gyda phartner allanol; 440 aelod o staff yn ymwneud â goruchwyllo PhD	Pennaeth Astudiaethau Ymchwil Ôl-raddedig
Gwybodaeth rheoli addysgiadol	5. Gwella cymorth i ymchwilwyr drwy gyfoethogi systemau a seilwaith	System llywodraethu ymchwil ar bapur; system gwybodaeth rheoli PhD ar daenlen	Rheolwr PhD yn weithredol a system llywodraethu ymchwil ar-lein gan gynnwys ceisiadau ymchwil a moeseg	Astudiaeth â ffocws wedi'i chynnal i fynegi ein plethwaith ymchwil-addysgu a chael y gallu i fesur, rhannu, arddangos a dathlu ei ddefnydd yn ein cwricwla	Cyfarwyddwr Ymchwil ac Ymgysylltu Busnes
Creu'r Academia	6. Bydd ymchwil yn llywio ac yn cael ei lywio gan ein cwricwla a'n rhaglenni. Bydd ein myfyrwyr israddedig yn wybodus am ein hymchwil a'r rôl bwysig mae'n ei chwarae yn ein prifysgol. Bydd myfyrwyr israddedig yn cael eu harfogi i ymgymryd ag ymchwil perthnasol i'w disgyblaeth a lle bo'n briodol byddant yn ymgymryd ag ymchwil fel rhan o'u rhaglen astudio; caiff staff eu hannog i ystyried y gymuned myfyrwyr fel adnodd ar gyfer ymchwil a chreu effaith	Nid oes gennym wybodaeth gwaelodlin ar <ul style="list-style-type: none"> • y nifer o fyfyrwyr sy'n ymgymryd â phrosiect ymchwil fel rhan o'u rhaglen; • y nifer o allbynnau ymchwil, astudiaethau achos effaith a sylw cyfryngol sy'n codi o waith myfyrwyr israddedig a meistr; • y nifer o fyfyrwyr sy'n mynd ymlaen i raddau ymchwil 	System wedi'i datblygu ar gyfer tracio a thagio addysgu'n gysylltiedig ag ymchwil yn ein cwricwla; system wedi'i datblygu ar gyfer tynnu sylw at allbynnau a gyd-awdurwyd gan staff a myfyrwyr; cyflawni cyhoeddi allanol ar gyfer 10 prosiect ymchwil israddedig yn dilyn Cynhadledd Ymchwil Israddedig Prydain 2019.	Creu fframweithiau cwricwla, diwyllianau cydnabod ac arbenigedd staff sy'n normaleiddio arferion ymchwil ac allbynnau staff-myfyrwyr / myfyrwyr yn yr holl Gyfadranau	Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwr






Cynyddu Effaith

Amcan	Byddwn yn cyflawni hyn drwy:	Gwaelodlin 2018	Mesur Llwyddiant 2021	Mesur Llwyddiant 2027	Arweinydd
Meithrin a chynnal ymchwil gydag effaith sy'n croesi ffiniau disgyblaethol ac yn ymdrin â heriau cymdeithasol	<p>1. Hybu ymchwil amlddisgyblaethol drwy gyllido a chefnogi rhwydweithiau ar draws y brifysgol sy'n canolbwyntio ar heriau cymdeithasol byd-eang; symbylu cysylltiadau rhwng grwpiau ymchwil a chyfranogiad mewn rhwydweithiau cenedlaethol a rhyngwladol i greu màs critigol</p> <p>2. Datblygiad proffesiynol parhaus ar: bwysigrwydd datblygu effaith yn sgil ymchwil a sut i'w sicrhau; entrepreneuriaeth a llwybrau at fasnacheiddio</p>	<p>49% o'n hastudiaethau achos effaith yn sgorio 3/4* yn REF2014 gyda rhaniad 4*:3* o 30:70</p> <p>Ddim ar gael</p>	<p>60% o'n hastudiaethau achos effaith yn sgorio 3/4* gyda rhaniad 4*:3* o 40:60</p> <p>50 o gyfranogwyr wedi cwblhau rhaglen datblygu Arweinyddiaeth Effaith a/neu Ddyfarniadau Effaith</p>	<p>75% o'n hastudiaethau achos effaith yn sgorio 3/4* gyda rhaniad 4*:3* o 50:50</p> <p>200 o gyfranogwyr wedi cwblhau rhaglen datblygu Arweinyddiaeth Effaith a/neu Ddyfarniadau Effaith</p>	<p>Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil</p> <p>Cyfarwyddwr Ymchwil ac Ymgysylltu Busnes</p>
Adeiladu perthnasoedd aml-gyffwrdd a phartneriaethau tymor hir i ddarparu llwybrau at effaith	<p>3. Ecsbloetio cysylltiadau presennol gyda diwydiant rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer interniaethau, lleoliadau gwaith, cyflogaeth i radddedigion a secondiadau staff i adeiladu ymgynghoriaeth a chyllid ymchwil contract a vice-versa. Hwyluso partneriaethau strategol gyda chymorth ar lefel y brifysgol a deiliaid cyfrifon (academaidd) allweddol.</p>	<p>Dim B2B CRM ar gyfer rhannu gwybodaeth.</p>	<p>B2B CRM yn weithredol, yr holl interniaethau, lleoliadau gwaith, cyflogaeth gradddedigion, ymgynghoriaeth ac ymchwil ar gontract wedi'u cofnodi. 6 phartneriaeth strategol ar draws y brifysgol; ychwanegu un newydd bob blwyddyn</p>	<p>10 partneriaeth strategol ar draws y brifysgol</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG; Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil</p>

Amrywio Incwm



Amcan	Byddwn yn cyflawni hyn drwy:	Gwaelodlin 2018	Mesur Llwyddiant 2021	Mesur Llwyddiant 2027	Arweinydd
Cynnydd sylweddol yn ein hincwm ymchwil ac arloesi drwy ddatblygu portffolio o ymchwil a gyllidir sy'n fwy cydnherth ac amrywiol	<p>1. Nodi meysydd blaenoriaeth strategol; canolbwyntio cymorth ar gynigion sydd â'r siawns gorau o lwyddo</p>	<p>Cyfanswm incwm ymchwil ac ymgynghori'r Brifysgol yn £5.2m (£3.9m adroddiad HESA, £1.3 HEBCIS) yn sesiwn 16/17</p>	<p>Nodi pum maes blaenoriaeth strategol; £10m o incwm ymchwil</p>	<p>Nodi wyth maes blaenoriaeth strategol; £20m o incwm ymchwil</p>	<p>Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil</p>
Gwella cyfraddau llwyddiant	<p>2. Cynyddu ein cyfradd llwyddiant drwy fandadu adolygiad mewnol gan gymheiriaid o geisiadau grant</p>	<p>51 o ymchwilwyr gwahanol yn cael eu cyllido yn sesiwn 16/17; cyfradd llwyddiant cyfredol o 27% (yn ôl rhif) ar gyfer ceisiadau grant sy'n cynnwys gorbenion</p>	<p>75 o ymchwilwyr gwahanol yn cael eu cyllido; cyfradd llwyddiant o 32%</p>	<p>150 o ymchwilwyr yn cael eu cyllido; cyfradd llwyddiant o 37%</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi</p>
Ethos un tîm	<p>3. Creu rhwydweithiau amlddisgyblaethol ar draws y brifysgol i gynyddu cynigion cyllido cydweithredol; datblygu enw da drwy gyfathrebiadau ymchwil</p>	<p>1 rhwydwaith newydd i'w sefydlu yn 2018 ac un bob blwyddyn wedi hynny</p>	<p>3 rhwydwaith hunangynhaliol gyda hanes o gyllid allanol a gweledd allanol cryf yn cynnwys 50% o'n staff gweithredol o ran ymchwil</p>	<p>5-6 rhwydwaith hunangynhaliol gyda hanes o gyllid allanol a gweledd allanol cryf yn cynnwys 75% o'n staff gweithredol o ran ymchwil</p>	<p>Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil</p>
Gwybodus a dylanwadol	<p>4. Annog a hwyluso'n weithredol: cynrychiolaeth ar baneli asesu grantiau a cholegau adolygiadau cymheiriaid; ymgysylltu ag asiantaethau cyllido a'r llywodraeth</p>	<p>Nifer anhysbys o bobl mewn colegau UKRI a adolygir gan gymheiriaid ac ar baneli REF</p>	<p>15</p>	<p>30</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi</p>